

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 23ain o Fai 2018 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

**Presennol;** Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , John P Jones, Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Catrin Jones, Idris Jones, Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Berwyn Harding, a Huw T Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau; Cyng. Geraint Morgans, Cyng. John Pughe Roberts.

#### **1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fawrth fel rhai cywir.

#### **2. Materion yn codi .**

- a) Cadarnhawyd fod Adrian Williams, Pennaeth Adran Briffyrdd Meirionnydd wedi ymweld ag ardal Aberangell gyda'r Cyng Berwyn Harding i drafod nifer o faterion o fewn y cylch.
- b) **Toiledau Dinas Mawddwy** – Adroddodd Cyng Arfon Hughes am e-bost gan Clerc Cyngor Llanuwchllyn yn dweud eu sefyllfa hwy. Penderfynwyd parhau i dalu y £2000 yn flynyddol ar hyn o bryd.
- c) Cwynion am y Post Brenhinol – nodwyd gwyn pellach gyda engraifft fod llythyr wedi ei ddanfon yn anghywir i SY20 9JG, a byddai'r Clerc yn ysgrifennu eto.
- d) Darllenwyd ymatebion i'r **holl faterion priffyrdd** ers y cyfarfod diwethaf.
- e) Darllenwyd yn llawn ymateb Cyng Dyfrig Siencyn, arweinydd Cyngor Gwynedd, dyddiedig 1af o Fai ynglyn ag ariannu Clybiau Ffermwyr leuainc ym Meirionnydd. Mynegwyd siom ddirfawr am y sefyllfa unwaith yn rhagor.

#### **3. Materion Cynllunio**

Roedd 2 gais gerbron y Cyfarfod, sef;

##### **NP5/74/L171 – Dymchwel ty presennol ac adeiladu ty newydd yn Penrhyn, Dinas Mawddwy.**

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais yma, ond nodwyd y dylai fod argymhelliad gennym y dylid cadw yr new ar yr annedd, gan fod yna hanes a chefnidir iddo.

##### **NP5/74/76A- Amnewid ffenestri a drysau pren presennol a ffenestri a drysau upvc yn Dolbrawdmaeth Hotel, Dinas Mawddwy.**

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais.

Adroddodd y Clerc ei fod yn derbyn ceisiadau drwy e-bost, ac y byddai yn dosbarthu l'r Cynghorwyr yn y dull yma l'r dyfodol.

#### **4. Materion Cyllid.**

Adroddodd y Clerc y byddai angen cyflwyno cyfrifon 2017 -18 i Archwilydd Mewnol newydd y Cyngor, ac y byddai rhaid eu rhoi yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd yn

Nolgellau ar Dydd Gwener y 25ain o Fai. Cyflwynwyd y gwaith/cyfrifon i sylw aelodau'r Cyngor Cymuned, ac fe'i dosbarthwyd ymysg yr aelodau..Adroddodd y Clerc am y nifer fawr o dasgau a oedd rhaid eu cwblhau eto eleni. Ymysg y materion oedd asesiad risg (a ddosbarthwyd l'r Cynghorwyr er gwybodaeth) a'r rhestr o resymau am gynnydd yn y Praesept eleni,

Nodwydd ddyddiadau cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned am weddill 2018-19, sef 27ain Mehefin, 29ain Awst, 17eg Hydref, 5ed Rhagfyr, 23ain o Ionawr, a'r 13eg o Fawrth.

Cytunwyd I dalu anfonebau Cyngor Gwynedd am lenwi biniau halen, sef £276, a chyfraniadi ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn y Dinas, sef £2000.

Cytunwyd I dalu anfonebau John Arfon Owen am ail-agor bedd ym mynwent Dinas Mawddwy ar y 9fed o Fawrth am £400, ac ail-agor bedd eto yn y Dinas ar y 18fed o Fai am £400.

Roedd cais am arian i law gan Bobath Cymru, ond penderfynwyd peidio cyfrannu.

Cytunwyd I dalu yswiriant y Cyngor I BHIB insurance brokers am gyfanswm o £294.48.Nododd y Clerc ei fod yn awyddus I Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor i weld manylion y polisi eto eleni er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer dibenion y Cyngor.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad a Hefin Daves a Tegid Humphreys, a bod y ddau wedi cadarnhau eu bod yn torri gwair y mynwentydd eto eleni ar yr un pris a 2017.

## **5. Ethol Swyddogion**

Etholwyd y canlynol ar gyfer 2018-19

Cadeirydd; Elwyn Jones  
Is-Gadeirydd; Iwan Foulkes

Clerc; Huw T Jones

Cadarnhawyd y canlynol ar bwyllgorau eraill;

Un Llais Cymru – Hedd Pugh ag Idris Jones.  
Pwyllgor Neuadd Dinas Mawddwy – Idris Jones  
Pwyllgor Neuadd Aberangell – Berwyn Harding a Iwan Foulkes.  
Pwyllgor yr Hen Fynwent – Catrin Jones a Berwyn Hughes.

Gofynnwyd i'r Clerc ymholi beth yw'r sefyllfa gyda'r arian a ddosrennir gan 'Ddol y Plwy' yng ngwyneb y ffaith fod y Parch Roland Barnes bellach wedi gadael yr ardal.

## **6. Gohebiaeth.**

- a) Nodwyd lythyr gan Gwyneth Jones ar ran Neuadd Dinas Mawddwy yn mynegi pryder am y swyddfa bost, sef ei fod ar gau yn aml iawn oherwydd salwch.

Adroddwyd hefyd nad oedd yr oriau cywir yn cael eu cadw. Byddai'r Clerc yn danfon llythyr.

- b) Adroddwyd yn llawn am yr anffodlonrwydd fod Meddygfa Glantwymyn yn cau yn rhan amser. Cyferiwyd at e-bost yr oedd y Clerc wedi ei dderbyn gan Rab Jones, Clerc y Cyngor Cymuned yno, a llythyr hir gan y Dr Louise Hyde a oedd wedi ei ddsbarthu i'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Adroddwyd fel yr oedd addewid geiriol wedi ei roi mewn cyfarfod yno beth amser yn ol, ac o fewn 2 wythnos roedd y feddygfa yn rhan amser. Roedd yna bryder am yr ymdrech i geisio canoli yn Machynlleth, ac roedd hyn yn boendod difrifol i drigolion yr ardal sy'n dibynnu ar y feddygfa. Gwelwyd y dylid ysgrifennu at ein Haelod Seneddol a'n Haelod Cynulliad, gydag awgrym o gyfeirio'r mater at y Cyngor Iechyd Cymuned, ac ymholi hefyd a oedd proses o scrwtineiddio penderfyniadau fel hyn gan y Cynulliad. Roedd angen hefyd cadw mewn cysylltiad gyda Rab Jones am y mater.
- c) Darllenwyd lythyr gan Andy Rowland, Trefnydd Biosffer Dyfi, yn gwahodd cynrychiolydd i Gyfarfod Blynyddol a chyfarfodydd eraill. Penderfynwyd ar enw y Cadeirydd sef Cyng. Elwyn Jones.
- d) Darllenwyd e-bost gan Sion Gwilym yn cynnig ei wasanaeth yn mapio ardal y Cyngor.
- e) Darllewyd e-bost yn amlinellu gwaith gosod sgaffaldiau ac atgyweirio Eglwys Llanymawddwy.
- f) Darllenwyd lythyr Ymgyrch Diolgelu Cymry Wledig yn rhoi gwybodaeth am Wobr Pentrefi Meirionnydd 2018.
- g) Darllenwyd lythyr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am eu rhaglen waith yn yr ardal, ac hefyd lythyr arall yn rhoi amlinellaid o'r cyd-ddealltwriaeth yng nghyswllt ffioedd claddu plant.

## **7. Unrhyw Fater arall.**

- a) Roedd angen ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd unwaith yn rhagor ynglyn a tyllau ar faes parcio Lawnt y Plas.
- b) Awgrymwyd archebu arwyddion 'Dim cwn, heblaw cwn arwain' ar gyfer mynwentydd yng ngofal y Cyngor Cymuned. Rhoddwyd engreiffitiau o rai fyddai'n addas.
- c) Roedd twll ar ochr y ffordd o dan Caergof, sef ger y fynedfa agosaf at Cwm Cewydd.
- d) Roedd twll yn y ffordd o flaen Plas y Bont yn Cwm Cywarch.
- e) Gofynnwyd am y rheolau newydd gyda chadw bas data ayyb, a byddai'r Clerc yn ymholi. Cadarnhaodd nad oedd eto wedi cael unrhyw ohebiaeth gan neb ar y mater yma.
- f) Roedd angen cwyno unwaith eto nad oedd y bws ysgol yn troi fewn i'r arhosfan yn Minllyn i gasglu y plant. Dangoswyd luniau wedi eu tynnu ar ddydd llun y 23ain o Fai, a oedd yn dangos yn gwbl eglur pa mor beryglys yw hyn. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 27ain o Fehefin 2018 yn NEUADD DINAS MAWDDWY AM 8.00 O'R GLOCH.**